

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer
Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2024–2025



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Canfyddiadau allweddol	2
1. Niferoedd ceisiadau	3
Nifer y Ceisiadau	3
Nifer y ceisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion	6
Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti	8
Ceisiadau gan awduroddau rheoli y tu allan i Gymru	9
2. Math o geisiadau	10
Ceisiadau safonol	10
Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys	10
Ceisiadau pellach	10
3. Yr amserlen ar gyfer dyrannu ceisiadau i'w hasesu	13
Ceisiadau heb eu dyrannu	13
Ceisiadau a dynnwyd yn ôl	13
Yr amser a gymerodd i dyrannu ceisiadau i'w hasesu	16
Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol	17
Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys	19
Yr amser a gymerodd i ddyrannu ar gyfer asesiadau pellach	21
4. Cwblhau asesiadau	24
Cwblhau asesiadau safonol	24
Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys	27
Cwblhau asesiadau pellach	29

5. Canlyniad asesiadau	31
Ceisiadau a awdurdodwyd	31
Ceisiadau a wrthodwyd a'r rheswm dros hynny	34
6. Hyd awdurdodiad	37
Hyd awdurdodiad	37
7. Nodweddion unigol	38
Ceisiadau yn ôl rhyw, oedran, ethnigrwydd	38
Ethnigrwydd	40
8. Monitro a chymorth	41
Adolygiadau	41
Cynrychiolaeth	41
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol	41
Y Llys Gwarchod	42
Atodiad i'r adroddiad	44
Ansawdd data	44
Terminoleg	44
Adborth ar yr adroddiad hwn	44
Rhestr termau: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad monitro DoLS	45

Cyflwyniad

Dyma adroddiad monitro blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru. Llunnir yr adroddiad ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn darparu fframwaith cyfreithiol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i amddiffyn unigolion nad oes ganddynt alluedd ac sy'n cael eu hamddifadu o ryddid mewn cartrefi gofal neu ysbytai. Cafodd y trefniadau diogelu hyn eu cyflwyno yn 2009 a'u hehangu yn sgil dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer ym mis Mawrth 2014¹, a'u nod yw sicrhau bod trefniadau o'r fath yn gyfreithlon ac er lles pennaf yr unigolyn.

Yn 2014, cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu² y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gan ddod i'r casgliad nad oedd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn "addas at y diben" ac y dylid eu disodli. Bwriadwyd i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS), a gyflwynwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, ddisodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid erbyn 2022.

Fodd bynnag, gohiriwyd y broses o roi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith tan yn ddiweddar pan gyhoeddwyd y byddai ymgynghoriad yn cael ei lansio arnynt yn ystod hanner cyntaf 2026. Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

1 Gweler [www.mentalhealthlaw.co.uk/Cheshire_West_and_Chester_Council_v_P_\(2014\)_UKSC_19_\(2014\)_MHLO_16](http://www.mentalhealthlaw.co.uk/Cheshire_West_and_Chester_Council_v_P_(2014)_UKSC_19_(2014)_MHLO_16)

2 Gweler www.publications.parliament.uk/pa/ld201314/ldselect/ldmentalcap/139/13902.htm

Canfyddiadau Allweddol

- Cafwyd cynnydd o 10% (1,165) yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol yn ystod 2024–2025, a chafwyd cynnydd o 23% (1,739) yn nifer y ceisiadau i fyrddau iechyd.
- **Mae oedi parhaus wrth ddyrannu, asesu, ac awdurdodi ceisiadau DoLS yn golygu bod llawer o unigolion yng Nghymru yn dal i gael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithlon, heb drefniadau diogelu na hawliau cyfreithiol Heb ddiwygiadau brys, mae'r methiannau systemig hyn yn debygol o barhau, gan wadu'r amddiffyniadau y mae gan bobl agored i niwed yr hawl iddynt.**
- Cafwyd cynnydd o 15% (862) yn nifer y ceisiadau a aseswyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chafodd 3,048 o geisiadau eu hasesu gan Fyrddau Iechyd, sef cynnydd o 12% (352).
- **Rhaid i'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu ceisiadau wella, gan na chaiff llawer o geisiadau eu hasesu o fewn y cyfnodau statudol.**
- Mae llawer o awdurdodiadau brys yn dod i ben o hyd cyn y gellir cynnal yr asesiadau DoLS gofynnol. Dylai rhai awdurdodau lleol adolygu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer awdurdodiadau brys gyda'r awdurdodau rheoli.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn wynebu heriau o hyd wrth ddyrannu nifer y ceisiadau a geir am awdurdodiadau pellach. Mae hyn yn cynyddu'r risg y caiff pobl eu hamddifadu o'u rhyddid heb amddiffyniad parhaus y trefniadau diogelu. **Rhaid i bob corff goruchwyllo sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn, ac y caiff yr asesiadau ar gyfer pob cais eu cynnal o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodir yn y Cod Ymarfer.**
- Mae defnydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd o amodau yn amrywio, gyda rhai rhanbarthau yn eu defnyddio'n fwy nag eraill. Dylai Cyrff Goruchwyllo barhau i sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu.
- Caiff y rhan fwyaf o bobl eu cefnogi a'u cynrychioli o hyd mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**
- Mae'r broses ar gyfer cofnodi ethnigrwydd yn annigonol o hyd ac mae'n **rhaid** ymdrin â hyn, gan nad yw 22% o geisiadau i awdurdodau lleol ac 11% o geisiadau i fyrddau iechyd yn cofnodi ethnigrwydd yr ymgeisydd. Heb ddata ethnigrwydd cyson a chyflawn, nid oes modd asesu a oes effaith anghymesur ar rai grwpiau penodol neu a yw rhai grwpiau penodol o dan fwy o anfantais nag eraill.

1. Nifer y Ceisiadau

Nifer y Ceisiadau


Cafodd awdurdodau lleol gyfanswm o 13,019 o geisiadau yn 2024–2025. Mae hyn yn gynnydd o 10% (1,165) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (11,854).

Nododd 15 o'r 22 o awdurdodau lleol gynnydd yn nifer y ceisiadau DoLS a gafwyd. Bro Morgannwg a nododd y cynnydd uchaf, sef 81%, wedi'i ddilyn gan gynnydd o 48% yn Sir Gaerfyrddin. Abertawe sy'n cael y nifer uchaf o geisiadau o hyd (1,431) a gwelodd gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (1,175). Yn ystod adroddiad y flwyddyn flaenorol, y cynnydd mwyaf oedd 37%. Dylai awdurdodau lleol sy'n nodi cynnydd sylweddol

fyfyrion ar y ffactorau sylfaenol sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn ac ystyried a oes angen adolygu eu hymarfer cyfredol, eu prosesau ar gyfer dyrannu adnoddau neu eu prosesau gweithredol. Gall nodi a rhannu dulliau gweithredu effeithiol mewn perthynas â rheoli galw cynyddol helpu i wella gwasanaethau a hyrwyddo cysondeb ledled Cymru.


Caerffili a Phowys a nododd y gostyngiad mwyaf yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn ystod 2024–2025 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol: Cafodd Caerffili 17% yn llai o geisiadau (107 yn llai), a chafodd Powys 16% yn llai o geisiadau (108 yn llai). Gweler Ffigur 1.1.

Ffigur 1.1. Nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob awdurdod lleol rhwng 2022–2023 a 2024–2025



Cafodd byrddau iechyd gyfanswm o 9,222 o geisiadau DoLS yn 2024–2025. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 23% (1,739) o gymharu â nifer y geisiadau a gafwyd yn 2023–24 (7,483).

Ffigur 1.2. Nifer y geisiadau DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd rhwng 2022–2025



Nifer y ceisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion

Yn 2023, 3.16 miliwn oedd poblogaeth amcangyfrifedig Cymru, yr oedd 2.54 miliwn ohoni yn oedolion dros 18 oed³. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, y gwnaed 512 o geisiadau i awdurdodau lleol a 362 o geisiadau i fyrdau iechyd fesul 100,000 o oedolion yng Nghymru.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae cyfraddau DoLS yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol. Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran demograffeg, gwybodaeth a dealltwriaeth leol o DoLS ar draws y sector.

O gymharu â maint y boblogaeth, awdurdodau lleol Abertawe (716), Castell-nedd Port Talbot (702) a Bro Morgannwg (641) gafodd y niferoedd uchaf o geisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth. Merthyr Tudful (314), Rhondda Cynon Taf (337), a Chaerdydd (349) a nododd y cyfraddau DoLS isaf, gyda'r cyfraddau hyn yn parhau islaw cyfartaledd Cymru. Gweler Tabl 1.1.

Tabl 1.1. Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob awdurdod lleol a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2024–2025

	Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd	Nifer y ceisiada DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000
Blaenau Gwent	54,032	261	483.0
Pen-y-bont ar Ogwr	117,802	555	471.1
Caerffili	140,377	512	364.7
Caerdydd	307,789	1,075	349.3
Sir Gaerfyrddin	153,399	866	564.5
Ceredigion	61,618	366	594.0
Conwy	93,937	496	528.0
Sir Ddinbych	77,877	429	550.9
Sir y Fflint	124,995	685	548.0
Gwynedd	97,490	376	385.7

3 Gweler [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(llyw.cymru\)](#)

	Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd	Nifer y ceisiada DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000
Ynys Môn	56,220	356	633.2
Merthyr Tudful	46,137	145	314.3
Sir Fynwy	77,533	421	543.0
Castell-nedd Port Talbot	114,906	807	702.3
Casnewydd	126,592	697	550.6
Sir Benfro	101,521	572	563.4
Powys	111,015	558	502.6
Rhondda Cynon Taf	192,277	647	336.5
Abertawe	199,795	1,431	716.2
Torfaen	73,991	406	548.7
Bro Morgannwg	106,750	684	640.7
Wrecsam	108,383	674	621.9
Pob awdurdod lleol	2,544,436	13,019	511.7

Tabl 1.2. Cyfanswm y boblogaeth sy’n oedolion a nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o’r boblogaeth sy’n oedolion yn 2024–2025

	Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd	Nifer y ceisiadau DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000
Aneurin Bevan	472,525	1367	289.2
Betsi Cadwaladr	558,902	2271	406.3
Caerdydd a’r Fro	414,539	1684	406.7
Cwm Taf Morgannwg	356,216	1542	432.8
Hywel Dda	316,538	800	252.7
Addysgu Powys	111,015	495	265.3
Bae Abertawe	314,701	1063	337.7
Pob bwrdd iechyd	2,544,436	9,222	362

Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti

Os bydd y person, unrhyw berthynas, ffrind neu ofalwr, neu unrhyw drydydd parti o’r farn bod person yn cael ei amddifadu o’i ryddid heb fod yr awdurdod rheoli wedi gwneud cais am awdurdodiad, dylai dynnu sylw’r awdurdod rheoli at hyn. Os na fydd yr awdurdod rheoli yn gwneud cais am awdurdodiad, gall y person dan sylw ofyn i’r Corff Goruchwyllo benderfynu a oes achos o amddifadu o ryddid heb awdurdod.

O’r 13,019 o geisiadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yn ystod 2024–2025, cyflwynwyd 9 ohonynt gan drydydd parti. Cyflwynwyd y ceisiadau i 4 awdurdod lleol, sef Ynys Môn (1), Ceredigion (3), Conwy (4) a Chastell-nedd Port Talbot (2); a chafodd 1 ei gyflwyno gan gynrychiolydd cyflogedig ac 8 gan weithwyr proffesiynol neu eiriolwyr.

Cafodd tri o’r awdurdodau hyn – Ynys Môn, Ceredigion a Chonwy – hefyd geisiadau trydydd parti. Roedd hyn yn ostyngiad bach yn nifer y cyflwyniadau trydydd parti i awdurdodau lleol o gymharu â nifer ceisiadau’r flwyddyn flaenorol.

O’r 9,222 o geisiadau a gyflwynwyd i fyrddau iechyd, ni chyflwynwyd unrhyw rai ohonynt gan drydydd partion.

Ceisiadau gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru

Mae rhai pobl o Gymru yn cael eu gofal a'u cymorth neu driniaeth mewn cartref gofal neu ysbyty y tu allan i Gymru. Pan fydd y cais yn cael ei wneud gan awdurdod rheoli y tu allan i Gymru, a bydd y gofal a'r cymorth neu'r triniaethau wedi cael eu trefnu gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yng Nghymru, y Cyrff Goruchwyllo yng Nghymru fydd yn gyfrifol am yr asesiadau DoLS o hyd.

Yn 2024–2025, daeth 2% (292) o'r ceisiadau DoLS i awdurdodau lleol o'r tu allan i Gymru, sy'n debyg i'r flwyddyn flaenorol. Cafodd y ceisiadau hyn eu gwneud gan awdurdodau rheoli yn Lloegr i 21 o awdurdodau lleol ledled Cymru. Powys sy'n cael y nifer uchaf o hyd (16%, neu 87 o geisiadau), wedi'i ddilyn gan Sir y Fflint (7%, neu 47 o geisiadau).

Yn ystod 2024–2025, gwnaed 5% (476) o geisiadau DoLS i fyrdau iechyd gan awdurdodau rheoli o'r tu allan i Gymru. Cafodd y ceisiadau hyn eu gwneud gan awdurdodau rheoli yn Lloegr i bedwar bwrdd iechyd ledled Cymru.

Bwrdd iechyd Addysgu Powys a gafodd y nifer uchaf o geisiadau (55%, neu 262 o geisiadau) a chafodd bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 44%, neu 212 o geisiadau.

2. Math o geisiadau

Ceisiadau safonol

Ceisiadau am awdurdodiad safonol yw tua hanner y ceisiadau a gaiff awdurdodau lleol o hyd. Yn 2024–2025, ceisiadau safonol oedd 44% (5,685) o'r 13,019 o geisiadau a gafwyd, sef gostyngiad bach o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 47%⁴.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, Gwynedd a nododd y ganran uchaf o geisiadau safonol, sef 79% (298). Gweler Tabl 2.1.

O ran byrddau iechyd, dim ond 5% (431) o geisiadau oedd yn geisiadau safonol. Mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r ganran o geisiadau safonol a gafwyd yn 2023–2024 (6%).

Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys

Ar draws awdurdodau lleol, cafodd 16% (2,035) o'r ceisiadau a wnaed yn 2024–2025 eu gwneud drwy'r llwybr brys, sydd ychydig yn is na'r 19% a nodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nododd Sir Fynwy fod 57% (242) o'i geisiadau yn rhai brys. Y cyrff goruchwyllo â'r canrannau isaf o geisiadau brys oedd Wrecsam 0% (0) a Gwynedd, sef 1% (2). Gweler Tabl 2.1.

O'r 9,222 o geisiadau a wnaed i fyrdau iechyd yn 2024–2025, gwnaed 8,397 drwy'r llwybr brys (91% o'r holl geisiadau), sef cynnydd bach ers 2023–2024, lle roedd 6,639 (89%) o'r ceisiadau yn rhai brys.

Ceisiadau pellach

Ceisiadau pellach oedd y 41% (5,299) arall o geisiadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yn 2024–2025; mae hyn yn uwch na'r 34% y llynedd. Nododd Gwynedd 20% (76) o geisiadau pellach, lle nad oedd wedi nodi unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod blynyddoedd blaenorol. Nodwyd y gyfran uchaf o geisiadau pellach gan Ynys Môn 58% (208), Pen-y-bont ar Ogwr 54% (302) a Chastell-nedd Port Talbot 54% (434). Gweler Tabl 2.1.

O ran byrddau iechyd, ceisiadau pellach oedd y 4% (394) arall o geisiadau a gyflwynwyd. Dangosir dadansoddiad o'r mathau o geisiadau yn Nhabl 2.2.

⁴ Yn ystod blynyddoedd blaenorol, ni nododd Wrecsam unrhyw geisiadau am awdurdodiadau safonol gan awdurdodau rheoli. Mae newid i weithdrefnau system yn golygu bod Wrecsam bellach yn adrodd ar geisiadau DoLS safonol ar gyfer 2024–2025 ac nad oes ganddo unrhyw geisiadau safonol yn dilyn rhai brys.

Tabl 2.1. Canran y gwahanol fathau o geisiadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2024–2025

(Nifer y ceisiadau)	Safon	Brys	Pellach
Blaenau Gwent (261)	32%	30%	38%
Pen-y-bont ar Ogwr (555)	42%	4%	54%
Caerffili (512)	22%	49%	29%
Caerdydd (1,075)	52%	14%	34%
Sir Gaerfyrddin (866)	52%	5%	44%
Ceredigion (366)	44%	4%	52%
Conwy (496)	35%	29%	36%
Sir Ddinbych (429)	48%	7%	44%
Sir y Fflint (685)	50%	9%	41%
Gwynedd (376)	79%	1%	20%
Ynys Môn (356)	28%	13%	58%
Merthyr Tudful (145)	53%	17%	30%
Sir Fynwy (421)	20%	57%	23%
Castell-nedd Port Talbot (807)	43%	4%	54%
Casnewydd (697)	24%	28%	48%
Sir Benfro (572)	42%	10%	48%
Powys (558)	34%	43%	23%
Rhondda Cynon Taf (647)	65%	11%	24%
Abertawe (1,431)	52%	4%	44%
Torfaen (406)	17%	52%	31%

(Nifer y ceisiadau)	Safon	Brys	Pellach
Bro Morgannwg (684)	48%	10%	42%
Wrecsam (674)	47%	0%	53%
Pob awdurdod lleol	44%	16%	41%
(Nifer y ceisiadau)	5,685	2,035	5,299

Tabl 2.2. Canran y gwahanol fathau o geisiadau ar gyfer pob bwrdd iechyd yn 2024–2025

Nifer y ceisiadau	Safon	Brys	Pellach
Aneurin Bevan	1%	14%	0%
Betsi Cadwaladr	0%	23%	1%
Cwm Taf Morgannwg	2%	14%	1%
Hywel Dda	0%	8%	0%
Addysgu Powys	0%	5%	0%
Bae Abertawe	1%	10%	1%
Caerdydd a'r Fro	0%	18%	0%
Pob bwrdd iechyd	5%	91%	4%
(Nifer y ceisiadau)	431	8397	394

3. Yr amserlen ar gyfer dyrannu ceisiadau i’w hasesu

Ceisiadau heb eu dyrannu⁵

O’r 13,019 o geisiadau a gafodd awdurdodau lleol, roedd 30% (3,960) yn dal i fod heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2025, sy’n welliant o gymharu â’r ffigurau yn ystod blynnyddoedd blaenorol, sef 34% (2024) a 38% (2023). Ni nododd Castell-nedd Port Talbot na Wrecsam unrhyw geisiadau heb eu dyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol **sy’n ymarfer cadarnhaol**.

Mae llawer o Gyrff Goruchwyllo’r awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau sgrinio i helpu i flaenoriaethu achosion brys ac achosion risg uchel. Fodd bynnag, ni lwyddodd lleiafrif o awdurdodau lleol i ddyrannu dros 60% o’r ceisiadau a gawsant yn ystod 2024–2025; mae hyn yn cynnwys Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (er gwaethaf y nifer isel o geisiadau a gawsant). Mae prosesu ceisiadau mewn modd amserol yn agwedd bwysig ar sicrhau na fydd oedi wrth ddyrannu ceisiadau pobl i asesydd. Mae hyn yn arwain at oedi wrth gwblhau asesuadau ac awdurdodiadau, gan o bosibl amddifadu pobl mewn modd anghyfreithlon am gyfnod hwy. Gweler Tabl 3.1.

O’r 9,222 o geisiadau a gyflwynwyd i Fyrddau Iechyd, nodwyd bod 11% (1,001) o geisiadau heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2025, sef gostyngiad o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol.

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl

Yn 2024–2025, cafodd 18% (2,303) o’r ceisiadau a gafodd awdurdodau lleol eu tynnu’n ôl cyn y gellid eu hasesu – mae hyn yn gynnydd o gymharu â’r flwyddyn ddiwethaf, sef 13% (1,495). Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi symud i gartref gofal, wedi dychwelyd adref, neu wedi marw. Pan fydd pobl yn symud i gartref gofal arall, rhaid i gais newydd gael ei wneud os oes angen trefniadau diogelu o hyd. Gall y bobl hyn fod wedi cael eu hamddifadu o’u rhyddid heb fod y trefniadau diogelu priodol ar waith. Gweler Tabl 3.1.

5 Cyfeirir at geisiadau heb eu dyrannu fel ceisiadau sydd ar y gweill ar y ffurflen casglu data DoLS gyfredol.

Tabl 3.1. Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd heb eu dyrannu fesul awdurdod lleol yn 2024–2025

(Nifer y ceisiadau)	Tynnwyd yn ôl	Heb eu Dyrannu
Blaenau Gwent (134)	22%	30%
Pen-y-bont ar Ogwr (114)	14%	7%
Caerffili (365)	27%	45%
Caerdydd (673)	17%	46%
Sir Gaerfyrddin (379)	29%	15%
Ceredigion (133)	17%	19%
Conwy (329)	23%	43%
Sir Ddinbych (270)	18%	45%
Sir y Fflint (411)	28%	32%
Gwynedd (198)	18%	35%
Ynys Môn (38)	8%	3%
Merthyr Tudful (136)	20%	74%
Sir Fynwy (318)	37%	39%
Castell-nedd Port Talbot (51)	6%	0%
Casnewydd (193)	19%	9%
Sir Benfro (274)	11%	37%
Powys (371)	16%	50%
Rhondda Cynon Taf (555)	15%	71%
Abertawe (514)	12%	24%

(Nifer y ceisiadau)	Tynnwyd yn ôl	Heb eu Dyrannu
Torfaen (282)	27%	42%
Bro Morgannwg (486)	19%	52%
Wrecsam (39)	6%	0%
Pob awdurdod lleol	18%	30%
(Nifer y Ceisiadau)	2,303	3,960

Yn 2024–2025, dim ond 62% (5,748) o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd a gafodd eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu. Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi cael ei ryddhau neu wedi marw.

Tabl 3.2. Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd yn mynd rhagddynt fesul bwrdd iechyd yn 2024–2025

(Nifer y ceisiadau)	Tynnwyd yn ôl	Yn mynd rhagddo
Aneurin Bevan (1146)	84%	5%
Betsi Cadwaladr (1526)	67%	8%
Caerdydd a'r Fro (810)	48%	36%
Cwm Taf Morgannwg (794)	51%	7%
Hywel Dda (507)	63%	1%
Addysgu Powys (293)	59%	7%
Bae Abertawe (672)	63%	1%
Pob bwrdd iechyd	62%	11%
(Nifer y Ceisiadau)	5,748	1,001

Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu⁶

O'r 7,587 o geisiadau i awdurdodau lleol a ddyrannwyd i'w hasesu, cafodd 25% (1,865) eu dyrannu o fewn 7 diwrnod, sy'n debyg i'r llynedd. Fodd bynnag, cymerodd mwy o geisiadau fwy na 28 diwrnod i'w dyrannu, sef 44%, neu 3,374 o gymharu â 38% neu 2,456 o geisiadau yn 2023–2024. Gweler Tabl 3.3.

Wrth ystyried yr amser a gymerodd i awdurdodau lleol ddyrannu ceisiadau i'w hasesu yn ôl y math o gais, mae'r

amseroedd aros hiraf ar gyfer ceisiadau am awdurdodiadau safonol. O'r 2,911 o geisiadau safonol, cymerodd fwy na mis i 58% (1,679) gael eu dyrannu. O'r 684 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, cymerodd fwy na 14 diwrnod i 52% (355) gael eu dyrannu. O ran y 3,992 o geisiadau pellach, cymerodd fwy na mis i 35% (1,402) gael eu dyrannu. Gweler Tabl 3.3.

Tabl 3.3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu pob cais DoLS i'w asesu yn ôl y math o gais ac awdurdod lleol yn 2024–2025

	1–7 diwrnod	8–14 diwrnod	15–28 diwrnod	1–3 mis	3–6 mis	Mwy na 6 mis
Safon						
Pob awdurdod lleol	14%	10%	19%	38%	15%	4%
Nifer y Ceisiadau	393	299	540	1,115	441	123
Safonol yn dilyn rhai Brys						
Pob awdurdod lleol	39%	10%	9%	24%	13%	5%
Nifer y Ceisiadau	264	65	62	164	92	37
Pellach						
Pob awdurdod lleol	30%	16%	19%	26%	7%	2%
Nifer y Ceisiadau	1,208	639	743	1,047	286	69
Pob Cais						
Pob awdurdod lleol	25%	13%	18%	31%	11%	3%
Nifer y Ceisiadau	1,865	1,003	1,345	2,326	819	229

6 Wrth riportio ar amserlenni asesu Diogelu Rhyddid (DoLS), mae'n bwysig nodi nad yw pob awdurdod lleol na bwrdd iechyd yn cofnodi'r dyddiadau penodol sy'n ofynnol i gyfrifo hyd yr asesiad. O ganlyniad, dylid ystyried y ffigurau a gyflwynir yn rhai darluniadol yn hytrach nag yn bendant.

Tabl 3.4. Yr amser a gymerodd i ddyrannu pob cais DoLS i'w asesu yn ôl y math o gais a bwrdd iechyd yn 2024–2025 er gwaethaf y Math o Awdurdodiad Safonol


	1–7 diwrnod	8–14 diwrnod	15–28 diwrnod	1–3 mis	3–6 mis	Mwy na 6 mis
Safon						
Pob bwrdd iechyd	30%	18%	20%	32%	0%	0%
Nifer y ceisiadau	54	33	37	59	0	0
Safonol yn dilyn rhai Brys						
Pob bwrdd iechyd	25%	17%	22%	35%	1%	0%
Nifer y ceisiadau	647	448	554	896	18	0
Pellach						
Pob bwrdd iechyd	68%	19%	7%	6%	0%	0%
Nifer y ceisiadau	205	56	21	19	1	0
Pob Cais						
Pob bwrdd iechyd	30%	18%	20%	32%	1%	0%
Nifer y ceisiadau	906	537	612	974	19	3,048

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol

Mae cryn amrywio rhwng awdurdodau lleol wrth ddyrannu ceisiadau safonol. Ar gyfer 2024–2025, Wrecsam nododd y gyfran uchaf, sef 89% (282) wedi’u dyrannu i asesydd o fewn

28 diwrnod. O gymharu, cymerodd 4% (123) o’r holl geisiadau safonol i awdurdodau lleol fwy na 6 mis i gael eu dyrannu i asesydd. Gweler Ffigur 3.1.

Ffigur 3.1. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau DoLS safonol i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025



Mae cryn amrywio rhwng byrddau iechyd wrth ddyrannu ceisiadau safonol.

Ar gyfer 2024–2025, bwrdd iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe nododd y gyfran uchaf o geisiadau wedi'u dyrannu i asesydd o fewn 28 diwrnod. Fodd bynnag, cymerodd 32% (59) o'r holl geisiadau a ddyrannwyd (183) dros 28 diwrnod. Gweler Ffigur 3.2.


Ffigur 3.2. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau DoLS safonol i'w hasesu yn 2024–2025, yn ôl bwrdd iechyd



Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys

Llwyddodd pum awdurdod lleol i ddyrannu dros 95% o'u ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys o fewn 14 diwrnod, gyda Phen-y-bont ar Ogwr (20), Sir Ddinbych (27) a Merthyr Tudful (3) yn cyflawni 100%, Abertawe yn cyflawni 98% (50) a Chastell-nedd Port Talbot yn cyflawni 96% (23). **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.** Gweler Ffigur 3.3.

Ffigur 3.3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn ceisiadau DoLS brys i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025



O ran byrddau iechyd, o'r 2,563 o geisiadau safonol yn dilyn ceisiadau brys a ddyrannwyd i'w hasesu, Betsi Cadwaladr a nododd y gyfran uchaf o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys a gymerodd dros 28 diwrnod, gyda 70% o'r ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys a wnaed i'r bwrdd iechyd yn cael eu dyrannu fwy na 28 diwrnod ar ôl dechrau'r cais. O'r 2,563 o geisiadau safonol yn dilyn ceisiadau brys a ddyrannwyd, cymerodd fwy na mis i 914 (36%) gael eu dyrannu. Gweler Ffigur 3.4.


Ffigur 3.4. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn ceisiadau DoLS brys i'w hasesu yn 2024–2025, yn ôl bwrdd iechyd



Yr amser a gymerodd i ddyrannu ar gyfer asesiadau pellach

Roedd cyflawniad y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn well wrth ddyrannu ceisiadau pellach o fewn 28 diwrnod nag wrth ddyrannu ceisiadau safonol. Dyrannodd Sir Fynwy 99% (81) o'i cheisiadau pellach o fewn y cyfnod amser hwn, wedi'i dilyn gan Ynys Môn ar 98% (188), Wrecsam ar 97% (346) a Thorfaen ar 96% (107). **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.** I'r gwrthwyneb, bu'n rhaid i 18% (12) o geisiadau ym Mhowys am awdurdodiad pellach aros dros 6 mis i gael eu dyrannu. Gweler Ffigur 3.5.

Ffigur 3.5. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau DoLS pellach i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025




* Ni ddarparodd Merthyr Tudful y dyddiadau ar gyfer dyrannu ceisiadau pellach i asesydd; felly, nid oedd modd cynnwys data'r ardal yn Ffigur 3.5.

O ran byrddau iechyd, o'r 302 o geisiadau pellach a ddyrannwyd i'w hasesu, cymerodd fwy na 28 diwrnod i 7% gael eu dyrannu.

Cymerodd y rhan fwyaf o fyrddau iechyd (68%) 1-7 diwrnod i brosesu ceisiadau pellach i'w hasesu ac eithrio Hywel Dda, a nododd fod 100% o geisiadau pellach wedi cael eu dyrannu i'w hasesu ar yr un diwrnod. Gweler Ffigur 3.6.

Ffigur 3.6. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau DoLS pellach i'w hasesu yn 2024–2025, yn ôl bwrdd iechyd



4. Cwblhau asesiadau

Drwy gymharu'r dyddiad y cafodd y cais DoLS ei ddyrannu i asesydd â dyddiad y penderfyniad (i roi neu wrthod awdurdodiad), gallwn bennu bod 50% (6,502) o'r holl geisiadau i awdurdodau lleol wedi bod yn destun asesiad yn ystod 2024–2025. Er ein bod yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau lleol wedi cynyddu eu capasiti i gwblhau asesiadau a bod ganddynt gronfa o aseswyr lles pennaf sy'n gweithio ochr yn ochr â thîm penodedig, mae nifer yr asesiadau DoLS a gwblhawyd yn ystod 2024–2025 ychydig yn uwch na'r lefel o 48% (5,640) o geisiadau a fu'n destun asesiad yn 2023–24. O'n gwaith monitro parhaus, rydym yn gwybod bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn gwneud ceisiadau amserol i'r Llys Gwarchod a'u bod yn rhagweithiol wrth nodi sefyllfaoedd lle caiff person nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i gydsynio i'r trefniadau a wneir ar gyfer gofal a chymorth ei amddifadu o'i ryddid mewn lleoliad cymunedol.

Yn 2024–2025, cwblhaodd awdurdodau lleol asesiadau ar 86% (6,502 o 7,587) o'r ceisiadau a ddyrannwyd. Fodd bynnag, dim ond 46% (3,007) ohonynt a gafodd eu cwblhau o fewn y terfynau amser gofynnol – gwelliant bach ar lefel y llynedd, sef 39%.


Yn 2024–2025, cwblhaodd byrddau iechyd asesiadau ar 56% (1,697 o 3,048) o'r ceisiadau a ddyrannwyd. Cwblhawyd 65% (1,109) ohonynt o fewn y terfynau amser gofynnol.

Cwblhau asesiadau safonol

Yn 2024–2025, cwblhaodd awdurdodau lleol 2,340 o asesiadau ar gyfer awdurdodiad safonol, ond dim ond 43% (1,013) a gafodd eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Mae hyn yn welliant o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (35%).


Cwblhaodd tri awdurdod lleol 100% o'u hasesiadau o fewn y cyfnod statudol – sef Caerffili (1), Sir Fynwy (7) a Thorfaen (2), **sy'n ymarfer cadarnhaol**. Llwyddodd Sir Benfro 81% (79) a Wrecsam 81% (225) i gwblhau cyfran uchel o asesiadau o fewn y cyfnod statudol. Castell-nedd Port Talbot wnaeth gwblhau'r nifer uchaf o asesiadau safonol, sef 237 (76%). Fodd bynnag, ni lwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i fodloni'r cyfnod statudol o 21 diwrnod ar gyfer hanner yr asesiadau a gwblhawyd. Gweler Ffigur 4.1.

Ffigur 4.1. Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025



O ran byrddau iechyd, cwblhawyd 124 o asesiadau, a chwblhawyd 81% (100) ohonynt o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.2.

Ffigur 4.2. Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2024–2025




* Noder: Nid yw pob awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yn cofnodi'r dyddiadau sydd eu hangen i gyfrifo amseroedd asesu nodweddiadol. Felly dim ond data enghreiffiol yw'r data hyn.

Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys

Yn 2024–2025, cwblhaodd awdurdodau lleol 590 o asesiadau safonol yn dilyn ceisiadau brys, gyda 52% (309) yn cael eu cwblhau o fewn y cyfnod gofynnol o 7–14 diwrnod. Mae tua hanner yr awdurdodiadau brys a gaiff eu rhoi gan awdurdodau rheoli yn dod i ben cyn i'r asesiadau gofynnol gael eu cynnal.


Cwblhaodd tri awdurdod lleol yr holl asesiadau safonol yn dilyn rhai brys, sef Caerffili (9), Sir Ddinbych (25) a Thorfaen (10). Casnewydd a gwblhaodd y nifer uchaf o asesiadau safonol yn dilyn rhai brys yng Nghymru yn ystod 2024–2025 gyda 63% (56) yn cael eu cwblhau o fewn 7–14 diwrnod. Mae'r nifer uchaf o asesiadau safonol yn dilyn rhai brys na chawsant eu cwblhau o fewn y cyfnod yn cynnwys: 89% yng Nghonwy (40), 83% ym Mhowys (53), a 63% ar Ynys Môn (26) na chawsant eu cwblhau'n brydlon. Gweler Ffigur 4.3.

Ffigur 4.3. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7–14 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025



O ran byrddau iechyd, cafodd cyfanswm o 1,388 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys eu cwblhau yn 2024–2025, a chafodd 62% (864) o'r rhain eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7–14 diwrnod. Gweler Ffigur 4.4.

Ffigur 4.4. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7–14 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2024–2025




Cwblhau asesiadau pellach

Yn 2024–2025, cwblhaodd awdurdodau lleol 3,572 o asesiadau pellach, gyda 51% (1,824) yn cael eu hasesu o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod, gwelliant o 48% y llynedd. Mae'r awdurdodau lleol a lwyddodd i fodloni'r cyfnod o 21 diwrnod orau yn cynnwys y canlynol: Wrecsam 95% (314), Sir Fynwy 86% (70), Casnewydd 86% (267) a Sir Benfro 86% (130).


Cafodd awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Conwy a Sir y Fflint hi'n anodd cyflawni'r terfyn amser o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.5.

Ffigur 4.5. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2024–2025



O ran byrddau iechyd, cwblhawyd cyfanswm o 185 o asesiadau, a chwblhawyd 78% (145) ohonynt o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.6

Ffigur 4.6. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2024–2025




5. Canlyniad asesuadau

Ceisiadau a awdurdodwyd

Yn 2024–2025, asesodd awdurdodau lleol 6,502 o geisiadau DoLS, sef cynnydd o 15% o gymharu â'r llynedd, sef 5,640. O'r rhain, cafodd 97% (6,290) eu hawdurdodi gan Gyrrff Goruchwyllo, ychydig yn uwch na'r lefel o 96% y flwyddyn flaenorol. Gweler Ffigur 5.1.


Ffigur 5.1. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2024–2025



O'r 6,290 o asesiadau i awdurdodau lleol a awdurdodwyd, roedd amodau ynghlwm wrth 46% (3,330). Wrth ddadansoddi yn ôl y math o gais, roedd amodau ynghlwm wrth 66% (351) o awdurdodiadau safonol yn dilyn rhai brys, o gymharu â 58% (1,259) ar gyfer awdurdodiadau safonol a 50% (1,720) ar gyfer awdurdodiadau pellach.

Sir Benfro (81%, 228), Pen-y-bont ar Ogwr (77%, 326) ac Abertawe (77%, 686) a gofnododd y gyfran uchaf o awdurdodiadau heb unrhyw amodau ynghlwm wrthynt. Dylai rhai awdurdodau lleol archwilio eu hymarfer presennol er mwyn sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu. Gweler Ffigur 5.3.


Ffigur 5.2. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob bwrdd iechyd



Gall yr asesydd lles pennaf awgrymu amodau ar gyfer yr awdurdodiad. Gallai'r rhain gynnwys materion cysylltu, ystyriaethau diwylliannol, neu bryderon sylweddol eraill sy'n gysylltiedig ag amddifadu o ryddid. Os nad ymdrinnir â'r materion hyn, mae'n bosibl na fydd y penderfyniad i amddifadu unigolyn o'i ryddid er lles pennaf yr unigolyn hwnnw. Gall hefyd argymhell amodau er mwyn atal achosion o amddifadu unigolyn o'i ryddid yn y dyfodol.

Yn 2024–2025, asesodd byrddau iechyd 3,048 o geisiadau DoLS, cynnydd o gymharu â'r llynedd, sef 2,696. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol o 12% (352) yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan fyrddau iechyd yng Nghymru.

Ffigur 5.3. Y nifer o asesiadau awdurdodwyd gyda chyflwr wedi'i gysylltu gan bwrdd iechyd



Noder: ni wnaeth pob bwrdd iechyd ddarparu data ar yr amodau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r awdurdodiad amddifadu o ryddid.

Ceisiadau a wrthodwyd a’r rheswm dros hynny

Yn 2024–2025, dim ond 3% (328) o geisiadau DoLS a wrthodwyd gan awdurdodau lleol. Roedd y rhesymau dros wrthod yn amrywio’n sylweddol. O’u plith:

- Cafodd 3% (8) eu gwrthod am nad oeddent yn achos o amddifadu, gostyngiad o 15% y llynedd.

Ni wnaeth sawl awdurdod lleol wrthod unrhyw geisiadau – gan gynnwys Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Gweler Tabl 5.1.

O ystyried bod y rhan fwyaf o’r gwrthodiadau o ganlyniad i’r amod galluedd meddyliol a chynnydd amlwg yn y gwrthodiadau a oedd yn ymwneud â chymhwysedd, dylid ystyried atgyfnerthu ymarfer yn y meysydd hyn. Gall hyn gynnwys mwy o hyfforddiant ar asesiadau o alluedd meddyliol ac adolygu neu egluro meini prawf cymhwysedd er mwyn lleihau cyflwyniadau amhriodol.

Tabl 5.1. Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl rheswm dros wrthod fesul awdurdod lleol yn 2024–2025

Gwrthodwyd					
(Nifer y ceisiadau)	Lles pennaf	Cymhwysedd	Galluedd Meddyliol	Iechyd Meddwl	Nid yn achos o amddifadu
Blaenau Gwent (5)	0%	0%	100%	0%	0%
Pen-y-bont ar Ogwr (13)	0%	0%	100%	0%	0%
Caerffili (0)	–	–	–	–	–
Caerdydd (16)	0%	0%	100%	0%	0%
Sir Gaerfyrddin (45)	0%	89%	11%	0%	0%
Ceredigion (3)	0%	0%	100%	0%	0%
Conwy (18)	6%	0%	94%	0%	0%
Sir Ddinbych (3)	0%	67%	33%	0%	0%
Sir y Fflint (24)	0%	67%	33%	0%	0%
Gwynedd (33)	0%	85%	3%	9%	3%
Ynys Môn (3)	0%	33%	67%	0%	0%

Gwrthodwyd					
(Nifer y ceisiadau)	Lles pennaf	Cymhwysedd	Galluedd Meddyliol	Iechyd Meddwl	Nid yn achos o amddifadu
Merthyr Tudful (0)	—	—	—	—	—
Sir Fynwy (1)	0%	0%	100%	0%	0%
Castell-nedd Port Talbot (13)	0%	0%	92%	0%	8%
Casnewydd (20)	0%	10%	90%	0%	0%
Sir Benfro (12)	17%	0%	50%	33%	0%
Powys (19)	0%	70%	0%	10%	15%
Rhondda Cynon Taf (0)	—	—	—	—	—
Abertawe (26)	0%	4%	96%	0%	0%
Torfaen (0)	—	—	—	—	—
Bro Morgannwg (13)	0%	0%	100%	0%	0%
Wrecsam (37)	3%	49%	38%	3%	8%
Pob awdurdod lleol	1%	40%	53%	3%	3%
(Nifer y Ceisiadau)	4	122	160	10	8

O ran y ceisiadau a wnaed i fyrrddau iechyd, cafodd 372 o geisiadau eu gwrthod ar ôl eu hasesu yn 2024–2025, ac roedd y rhesymau dros hynny yn amrywio rhwng y byrddau iechyd. Yn achos y mwyafrif o'r ceisiadau a wrthodwyd, roedd y rhesymau dros eu gwrthod yn ymwneud â'r ffaith nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni, hynny yw bod gan y person y galluedd i gytuno i unrhyw amddifadu, gyda hyn yn cael ei nodi fel y prif reswm dros 67% (251) o'r gwrthodiadau.

Mae canran y ceisiadau a wrthodwyd oherwydd galluedd meddyliol yn debyg i'r ganran a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Tabl 5.2. Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl y rheswm dros wrthod fesul bwrdd iechyd yn 2024–2025

Gwrthodwyd				
(Nifer y ceisiadau)	Cymhwysedd	Galluedd Meddyliol	Iechyd Meddwl	Nid yn achos o amddifadu
Aneurin Bevan (26)	38%	62%	0%	0%
Betsi Cadwaladr (50)	32%	60%	6%	2%
Caerdydd a’r Fro (37)	49%	51%	0%	0%
Cwm Taf Morgannwg (60)	0%	67%	32%	2%
Hywel Dda (72)	32%	68%	0%	0%
Addysgu Powys (39)	8%	82%	8%	3%
Bae Abertawe (88)	10%	74%	16%	0%
Pob bwrdd iechyd	21%	67%	10%	1%
(Nifer y Ceisiadau)	79	251	39	3

6. Hyd awdurdodiad

Hyd awdurdodiad

Mae'r Cod Ymarfer⁷ yn nodi y dylai unrhyw awdurdodiad fod am gyn lleied o amser â phosibl, a dim ond cyhyd ag y bydd y person perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

Yn 2024–2025, cyfrifwyd hyd 6,270 o awdurdodiadau gan awdurdodau lleol. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, cafodd llawer eu hawdurdodi am dros naw mis:

- 87% (3,072) o awdurdodiadau pellach
- 80% (1,769) o awdurdodiadau safonol
- 59% (322) o awdurdodiadau safonol yn dilyn rhai brys.

Yn 2024–2025 ar gyfer byrddau iechyd, o'r cyfanswm o 9,222 o geisiadau a nodwyd, nodwyd hyd awdurdodiad 19% (1,718) o geisiadau.

Yn debyg i'r llynedd, cymerodd lai na chwe mis i roi neu wrthod 93% (1,606 o 1,718) o awdurdodiadau:

- 80% (1,375) o awdurdodiadau safonol yn dilyn rhai brys
- 12% (212) o awdurdodiadau pellach
- 8% (131) o awdurdodiadau safonol.

⁷ Gweler www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130104224411/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_085476


7. Nodweddion unigol

Ceisiadau yn ôl Rhyw, Oedran, Ethnigrwydd

Mae pobl dros 65 oed yn cyfrif am 86% o'r ceisiadau DoLS a wnaed i awdurdodau lleol ledled Cymru, ac mae 61% (7,905) o'r holl geisiadau ar gyfer menywod, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn y grwpiau oedran hŷn.


Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae nifer ychydig yn uwch o'r ceisiadau ar gyfer unigolion hyd at 64 oed ar gyfer dynion, ond yn y grwpiau oedran hŷn, mae mwy o geisiadau ar gyfer menywod. Gweler Ffigur 7.1.

Ffigur 7.1. Dosbarthiad oedran a rhyw ceisiadau ar draws pob awdurdod lleol ar gyfer 2024–2025



Mae pobl dros 65 oed yn cyfrif am 86% (7,917) o'r ceisiadau DoLS i Fyrddau Iechyd ledled Cymru, ac mae 43% (4,001) o'r holl geisiadau ar gyfer dynion, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn y grwpiau oedran hŷn. Gweler Ffigur 7.2.

Ffigur 7.2. Dosbarthiad oedran a rhyw ceisiadau ar draws pob awdurdod lleol ar gyfer 2024–2025



Ethnigrwydd

Mae dros dri chwarter (9,950) y ceisiadau DoLS i awdurdodau lleol ar gyfer unigolion gwyn, ac mae llai na 2% *(225) ar gyfer pobl o gefndir ethnig Asiaidd, Du, Cymysg neu Arall.

Yn yr un modd, o ran byrddau iechyd, roedd y gyfran uchaf o geisiadau DoLS ar gyfer 2024-25 ar gyfer unigolion gwyn, sef 87% o'r holl geisiadau. Roedd llai na 0.45% (42) o'r ceisiadau ar gyfer pobl o gefndir ethnig Asiaidd, Du, Cymysg neu Arall.

Mae iechyd meddwl gwael a/neu ddulliau cadw o wahanol fathau yn cael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd Du ac Ethnig Lleiafrifol. Mae'r broses ar gyfer cofnodi ethnigrwydd yn faes y mae angen ei wella, gan nad yw 22% (2,844) o geisiadau i awdurdodau lleol ac 11% (1,051) o geisiadau i Fyrddau Iechyd yn cofnodi ethnigrwydd yr ymgeisydd ar hyn o bryd. Heb ddata ethnigrwydd cyson a chyflawn, nid oes modd deall ar bwy mae prosesau DoLS yn effeithio na nodi anghydraddoldebau posibl ac ymdrin â nhw. Mae gwella ansawdd y broses o gofnodi ethnigrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau mynediad teg, llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, a chynnal egwyddorion tegwch a chynhwysiant.

8. Monitro a chymorth

Adolygiadau

Pan fydd person wedi'i amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r awdurdod rheoli wneud cais am adolygiad os bydd yn ymddangos na chaiff un neu fwy o'r gofynion cymhwyso eu bodloni mwyach.

Yn ystod 2024–2025, cafodd awdurdodiad 78 o bobl mewn awdurdodau lleol ei adolygu a chafodd awdurdodiad 4 ohonynt ei adolygu fwy nag unwaith. Mae hyn yn cynrychioli 1% o'r holl geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol.

Yn ystod 2024–2025, cafodd awdurdodiad 121 o bobl mewn byrddau iechyd ei adolygu a chafodd awdurdodiad 61 ohonynt ei adolygu fwy nag unwaith. Mae hyn yn cynrychioli 6% o'r geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd.

Cynrychiolaeth

Rhaid i'r Cyrff Goruchwyllo sicrhau y caiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid, a rhaid i berson y gwneir cais ar ei gyfer gael ei gynrychioli gan berson enwebedig. Yn 2024–2025, roedd gan 61% (3,922) o awdurdodiadau gan awdurdodau lleol a 61% (1,289) o awdurdodiadau gan fyrddau iechyd aelod o deulu, ffrind, neu ofalwr yn gweithredu fel cynrychiolydd.

Os na fydd unrhyw un annibynnol ar gael i gynrychioli'r person, rhaid i Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol neu gynrychiolydd cyflogedig gael ei benodi. Nododd awdurdodau lleol fod gan 39% (2,483) o awdurdodiadau gynrychiolydd cyflogedig, a nododd byrddau iechyd ganran o 38% (802).

Nodwyd nad oedd fod gan lai nag 1% (23) o awdurdodiadau gan awdurdodau lleol a llai nag 1% (8) o awdurdodiadau gan fyrddau iechyd unrhyw fath o gynrychiolaeth.

Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol

O'r 6,428 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd 4% (225) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol o dan Adran 39A, roedd llai nag 1% (39) yn gwneud hynny o dan Adran 39C a llai na 5% (341) o dan Adran 39D. Mae'r niferoedd hyn yn amrywio yn ôl yr awdurdod lleol. Abertawe oedd wedi penodi'r nifer uchaf o Eiriolwyr Galluedd Meddwl Annibynnol o dan Adran 39A (29% neu 66), Sir Gaerfyrddin oedd wedi penodi'r nifer uchaf o Eiriolwyr Galluedd Meddwl Annibynnol o dan Adran 39C (79% neu 31) a Chastell-nedd Port Talbot oedd wedi penodi'r nifer uchaf o Eiriolwyr Galluedd Meddwl Annibynnol o dan Adran 39D (55% neu 189).

O'r 2,099 o geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd, roedd llai nag 1% (6) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D, roedd 2% (45) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A a dim ond un cais oedd yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C. Roedd hyn yn amrywio rhwng byrddau iechyd. Betsi Cadwaladr oedd â'r nifer uchaf o geisiadau a oedd yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddwl Annibynnol o dan Adran 39A (74% neu 34 o benodiadau) a Bae Abertawe oedd yr unig Fwrdd Iechyd a oedd yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddwl Annibynnol o dan Adran 39C.

Y Llys Gwarchod

Gall y person, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran, wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chais neu ar ôl i awdurdodiad gael ei roi.

Yn 2024–2025, cafodd 168 o awdurdodiadau awdurdodau lleol eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod, i fyny o 92 yn 2023–24. Mae atgyfeiriadau wedi bod yn lleihau yn ystod y tair blynedd diwethaf ac maent bellach ond yn cyfateb i ychydig dros 2% o'r holl awdurdodiadau DoLS. Roedd y nifer uchaf o atgyfeiriadau yn Rhondda Cynon Taf a Chonwy. Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol na wnaeth nodi unrhyw atgyfeiriadau yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Gweler Tabl 8.1.

Tabl 8.1. Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan awdurdodau lleol at y Llys Gwarchod yn ystod 2022–2025

	2022–2023	2023–2024	2024–2025
Blaenau Gwent	0.0%	0.0%	0.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	2.9%	4.3%	2.4%
Caerffili	0.0%	2.2%	1.2%
Caerdydd	0.0%	0.0%	3.6%
Sir Gaerfyrddin	7.7%	3.3%	1.8%
Ceredigion	12.5%	6.5%	7.7%
Conwy	0.0%	4.3%	14.3%
Sir Ddinbych	3.8%	5.4%	0.6%
Sir y Fflint	15.4%	8.7%	3.0%
Gwynedd	0.0%	0.0%	0.0%
Ynys Môn	6.7%	9.8%	5.4%
Merthyr Tudful	1.9%	2.2%	4.2%
Sir Fynwy	0.0%	0.0%	1.8%
Castell-nedd Port Talbot	0.0%	0.0%	4.8%
Casnewydd	2.9%	5.4%	4.2%

	2022–2023	2023–2024	2024–2025
Sir Benfro	1.0%	0.0%	3.0%
Powys	7.7%	5.4%	2.4%
Rhondda Cynon Taf	12.5%	16.3%	20.8%
Abertawe	5.8%	16.3%	7.1%
Torfaen	1.9%	4.3%	2.4%
Bro Morgannwg	0.0%	0.0%	4.2%
Wrecsam	17.3%	5.4%	4.8%
Cyfanswm yr atgyfeiriadau	104	92	168
Cyfran yr atgyfeiriadau	1.9%	1.6%	2.6%

Cafodd cyfanswm o 47 o awdurdodiadau a wnaed at fyrddau iechyd eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod yn 2024–2025. O Aneurin Bevan (13), Cwm Taf Morgannwg (11) a Bae Abertawe (11) y daeth yr atgyfeiriadau yn bennaf eleni. O gymharu â’r flwyddyn flaenorol, mae atgyfeiriadau wedi cynyddu o lai nag 1% o geisiadau i fwy na 2%. Gweler Tabl 8.2.

Tabl 8.2. Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan fyrddau iechyd at y Llys Gwarchod yn ystod 2022–25

	2024–2025
Aneurin Bevan	(13) 0.6%
Betsi Cadwaladr	(4) 2.4%
Caerdydd a'r Fro	(1) 1.2%
Cwm Taf Morgannwg	(11) 3.6%
Hywel Dda	(7) 1.8%
Addysgu Powys	0%
Bae Abertawe	(11) 14.3%
Cyfanswm yr atgyfeiriadau	47

Atodiad i'r Adroddiad

Ansawdd Data

Defnyddir y data yn yr adroddiad hwn i fonitro'r defnydd o DoLS ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i AGC. Fodd bynnag, ni chaiff y data hyn eu dilysu gan AGC nac AGIC, a gall fod anghysondebau neu fylchau oherwydd gwahanol arferion casglu data.

Mae'n bosibl bod ceisiadau wedi'u labelu'n amhriodol fel rhai Safonol neu Frys mewn nifer bach o achosion, ac efallai nad yw'r canlyniadau'n gwbl gywir.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y gwerthoedd unigol a gyflwynir mewn ffigur ychydig yn wahanol i'w cyfanswm gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Terminoleg

Defnyddiwyd y geiriau yn yr adroddiad i adlewyrchu canllawiau ysgrifennu AGC cymaint â phosibl. Gellir dehongli'r defnydd o'r geiriau canlynol fel a ganlyn:

- Bron pob un: gydag ychydig iawn o eithriadau
- Y rhan fwyaf: 90% neu fwy
- Llawer: 70% neu fwy
- Mwyafrif: dros 60%
- Hanner: 50%
- Tua hanner: yn agos i 50%
- Lleiafrif: llai na 40%
- Nifer bach: llai nag 20%
- Nifer bach iawn: llai na 10%.

Adborth ar yr adroddiad hwn

Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio ein hystadegau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn neu ei gynhyrchion cysylltiedig, byddem yn eu croesawu'n fawr. E-bostiwch agc@llyw.cymru neu AGIC.PIM@llyw.cymru.

Rhestr Termau

Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiad monitro DoLS

Asesiad at ddiben Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. • Oedran • Asesiad lles pennaf • Asesiad cymhwysedd • Asesiad galluedd meddyliol • Asesiad iechyd meddwl • Asesiad dim gwrthodiad	Rhaid i bob un o'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol er mwyn i awdurdodiad gael ei roi. Asesu a yw'r person perthnasol wedi cyrraedd 18 oed. Asesu a yw amddifadu o ryddid er lles pennaf y person perthnasol, yn angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r person, ac yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o'r niwed hwnnw a'i ddifrifoldeb. Rhaid i Asesydd Lles Pennaf benderfynu ar hyn. Asesu p'un a yw person yn anghymwys i gael awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol ai peidio, gan y byddai'r awdurdodiad yn mynd yn groes i ofynion sydd wedi'u gosod, neu a allai gael eu gosod, ar y person o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Asesu p'un a oes gan berson y galluedd i benderfynu a ddylai fynd i ysbyty neu gartref gofal penodol er mwyn derbyn gofal neu driniaeth, ai peidio. Asesu p'un a oes gan berson anhwylder meddyliol ai peidio. Ymarferydd meddygol ddylai benderfynu hyn. Asesu a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli i wneud penderfyniadau ar ran y person perthnasol a fyddai'n atal awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol rhag cael ei roi. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys a wnaed ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys a wnaed gan ddirprwy neu o dan Atwrneiaeth Arhosol.
Asesydd Lles Pennaf	Person sy'n cynnal asesiad ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Galluedd	Hynny yw galluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Ceir diffiniad cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
Cartref gofal	Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu Ddeddf Safonau Gofal 2000.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau proffesiynol a llunio barn am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd ag annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaethau.
Gofalwr	Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion eiddil, sâl neu sydd fel arall yn agored i niwed.
Amodau	Gofynion y gall Corff Goruchwyllo eu gosod wrth roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Asesydd Lles Pennaf.
Cydsyniad	Cytuno ar gamau gweithredu, yn benodol yn yr adroddiad hwn cytuno ar gynllun gofal neu driniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn gyfreithiol ddilys, mae'n rhaid bod gan y person sy'n ei roi y galluedd i wneud y penderfyniad, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i'w wneud, ac na fu dan orfodaeth nac unrhyw bwysau amhriodol.
Y Llys Gwarchod	Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Y llys hwn sy'n bennaf cyfrifol am wneud penderfyniadau ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y dylai'r gyfraith gael ei rhoi ar waith.

Amddifadu o Ryddid	Mae amddifadu o ryddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud ag amgylchiadau pan gaiff rhyddid person ei gymryd oddi wrtho. Caiff ei ystyr ar lefel ymarferol ei ddiffinio drwy gyfraith achos.
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	Y fframwaith trefniadau diogelu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu lles pennaf er mwyn rhoi gofal neu driniaeth iddynt, ac nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a wnaed o ran eu gofal neu eu triniaeth.
Awdurdodiad pellach	Pan fydd awdurdodiad presennol ar gyfer DoLS ar fin dod i ben a daw'r Awdurdod Rheoli i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, yna dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn 28 diwrnod ymlaen llaw.
AGIC	Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn cyfres o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella.
Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid www.gov.uk/government/publications/liberty-protection-safeguards-factsheets	Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Nod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yw rhoi hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch amddifadu o ryddid.
Bwrdd iechyd	Mae byrddau iechyd lleol yn cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol partner, yn yr un ardal ddaearyddol fel arfer, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer delio â materion iechyd a llesiant. Byddant yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân, os mai nhw yw'r awdurdod rheoli.

Ysbyty Annibynnol	Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 – ysbyty, sydd â'r prif ddiben o ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer salwch neu anhwylder meddwl neu ofal lliniarol, neu unrhyw sefydliad arall, na chaiff ei ddiffinio'n ysbyty gwasanaeth iechyd, lle y darperir triniaeth neu ofal nyrsio (neu'r ddau) i bobl a all gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol	Eiriolwr hyfforddedig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli person nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan y person unrhyw un arall i'w gefnogi. Sefydlwyd gwasanaeth yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac mae ei swyddogaethau wedi'u diffinio ynddi.
Categori IMCA:	Diben:
Adran 39A	Caiff ei benodi yn ystod yr asesiad ar gyfer awdurdodiad safonol o dan DoLS, neu pan fo pryder ynghylch achos o amddifadu unigolyn o'i ryddid heb awdurdod. Mae'n sicrhau bod hawliau'r person wedi'u cynrychioli pan na fydd unrhyw un arall yn briodol i ymgynghori ag ef.
Adran 39C	Caiff ei benodi dros dro pan na fydd cynrychiolydd person perthnasol ar gael. Mae'n sicrhau bod eiriolaeth yn parhau hyd nes y caiff cynrychiolydd newydd ei benodi.
Adran 39D	Mae'n cefnogi'r person neu ei gynrychiolydd ar ôl rhoi awdurdodiad safonol. Mae'n ei helpu i ddeall eu hawliau a'u harfer, fel gwneud cais am adolygiad neu wneud cais i'r Llys Gwarchod.
Awdurdod lleol	Yr awdurdod lleol (cyngor) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ran benodol o'r wlad. Uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd gan gartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol awdurdodau rheoli dynodedig.

Awdurdod rheoli	Y person neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw.
Cyfnod awdurdodi hwyaf	Y cyfnod hwyaf y gall corff goruchwyllo roi awdurdodiad amddifadu o ryddid, na all fod yn fwy na 12 mis. Ni all fod yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Asesydd Lles Pennaf, a gall ddod i ben yn gynt gyda chytundeb y Corff Goruchwyllo.
Deddf Galluedd Meddyliol 2005	Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Pum egwyddor allweddol y Ddeddf yw: 1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i'w gwneud oni phrofir fel arall. 2. Rhaid i berson gael yr holl gymorth ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun. 3. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud yr hyn a allai gael ei ystyried yn benderfyniad annoeth yn ddigon o reswm dros ei drin fel rhywun nad oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw. 4. Rhaid i unrhyw beth a wneir, neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person nad oes ganddo alluedd gael ei wneud er ei les pennaf. 5. Dylid sicrhau bod unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person nad oes ganddo alluedd yn cyfyngu cyn lleied â phosibl ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol – Cod Ymarfer	Mae'r Cod Ymarfer yn ategu Deddf 2005 ac yn rhoi canllawiau i bawb sy'n gofalu am oedolion nad oes ganddynt alluedd a/neu'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Cod yn cynnwys astudiaethau achos ac yn egluro nodweddion allweddol y Ddeddf yn fanylach.
Deddf Iechyd Meddwl 1983	Deddfwriaeth sy'n ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw unigolyn yn yr ysbyty er mwyn iddo gael triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth a gwarcheidiaeth.
Ysbyty neu gartref gofal perthnasol	Yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid.
Cynrychiolydd person perthnasol	Person, sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol, a benodir i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol, a'i gynrychioli a'i gefnogi ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.
Cyfingu ar ryddid	Camau a gymerir mewn perthynas â pherson nad ydynt i'r un graddau nac mor ddwys â'i amddifadu o'i ryddid.
Adolygu	Golwg ffurfiol, newydd sbon ar sefyllfa person perthnasol lle bu, neu lle y gallai fod, newid mewn amgylchiadau a all olygu bod angen diwygio awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, neu ei derfynu.
Awdurdodiad safonol	Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwyllo, ar ôl cwblhau asesiad statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu person perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol.
Corff goruchwyllo	Adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais amddifadu o ryddid a geir gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle bydd yr holl asesiadau yn cytuno, awdurdodi achos o amddifadu o ryddid.

Y Goruchaf Lys	Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl olaf yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrandao achosion sydd o'r pwys cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan.
Amddifadu o ryddid heb awdurdod	Sefyllfa lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei awdurdodi gan awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol na brys.
Awdurdodiad brys	Awdurdodiad a roddir gan awdurdod rheoli am hyd at saith diwrnod, a all wedyn gael ei ymestyn am hyd at saith diwrnod arall gan gorff goruchwyllo. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu person o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal wrth i'r broses awdurdodi amddifadu o ryddid safonol fynd rhagddi.

Os hoffech gopi mewn iaith neu fformat amgen, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Mae copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni yma:



0300 7900 126



0300 062 8163



agc@llyw.cymru



agic@llyw.cymru



www.arolygiaethgofal.cymru



www.agic.org.uk